COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 24 HYDREF 2018 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | A Hussain | RM James | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | KL Rowlands | B Sedgebeer |
| RMI Shaw | CE Smith | SG Smith | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, B Jones, DG Owen, JC Radcliffe a/ac JC Spanswick

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

224. DATGANIADAU O FUDDIANT

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a'r Swyddog Monitro y cyngor a ganlyn i'r aelodau ynghylch eitem ar yr agenda y gallai fod gan rai Aelodau fuddiant ynddi yn ddiweddarach yn y cyfarfod (hy, eitem 10 ar yr Agenda):

Bydd gan Aelodau sydd y aelodau o'r gronfa bensiwn fuddiant personol yn yr eitem hon. Fodd bynnag, yn ôl y Cod Ymddygiad, os bydd y buddiant hwnnw'n deillio o'u haelodaeth o'r gronfa yn sgil eu cyflogau fel Cynghorwyr, ni fyddai ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol iddynt yn bersonol, ac ni fyddai'n berthnasol i unrhyw fuddiant a fyddai ganddynt pe bai aelod o'u teulu yn aelod o'r gronfa bensiwn. Gorffennodd drwy ddweud y dylai pob Aelod ystyried ei amgylchiadau unigol ei hun.

Datganwyd y buddiant canlynol:

Datganodd y Cynghorydd RM James fuddiant yn eitem 8 ar yr Agenda gan fod ei wraig yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru.

Datganwyd y buddiannau canlynol yn gysylltiedig ag Eitem 10 ar yr Agenda:

Buddiant personol gan y Cynghorydd PJ White.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd DBF White gan fod ei wraig yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd DG Howells, yn ogystal â buddiant rhagfarnus am ei fod yn Aelod cynrychioliadol o'r WDA.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd P Davies.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd HJ David gan fod perthnasau agos iddo yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd HM Williams.

Buddiant personol a buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd CE Smith gan fod aelod agos o'r teulu yn aelod ac yn fuddiolwr o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd S Baldwin.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd MJ Kearn gan fod perthynas agos yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd G Thomas gan ei fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd KJ Watts.

Buddiant personol gan y Cynghorydd RM Shaw.

Buddiant personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd N Clarke. (CHECK THIS ONE)

Buddiant personol gan y Cynghorydd MC Voisey.

Buddiant personol gan y Cynghorydd N Burnett gan fod perthynas agos yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd M Jones gan ei fod yn derbyn pensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd T Beedle fel aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd A Williams fel aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd D Patel fel aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd MC Clarke am ei fod wedi talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd S Aspey gan ei fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd T Thomas am ei fod wedi talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y gorffennol.

Buddiant personol gan y Cynghorydd J Gebbie.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd R Penhale-Thomas gan fod ei ŵr yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Buddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd R Collins gan fod ei wraig yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Dywedodd yr Aelodau hynny uchod a oedd wedi datgan buddiant rhagfarnus yn Eitem 10 ar yr Agenda y byddent yn gadael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem hon yn cael ei thrafod.

225. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 19 Medi 2018 yn gywir.

226. I DDERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH:

Y Maer

Dywedodd y Maer fod angen llongyfarch Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Thîm Rhyddhau Pen-y-bont ar Ogwr. Llwyddodd y tîm yn ddiweddar i gadw'r teitl fel y tîm gorau yn y DU am y chweched tro. Enillodd y tîm yn wyneb cystadleuaeth gref gan dimau ar draws y wlad mewn Her ym Mae Caerdydd a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Diolchodd yn fawr i bawb a gymerodd ran am eu hymroddiad a'u gwaith caled parhaus.

Bu'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor yn gyfnod prysur iddo, ac roedd Judy ac yntau wedi bod yn bresennol mewn 28 o ddigwyddiadau swyddogol. Bu'r digwyddiadau'n amrywiol, yn wahanol ac yn bleserus iawn. Cyfeiriodd yn arbennig at:

- Ben-blwydd Mrs Catherine Powell yn 100 yng nghartref gofal preswyl Oakland ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid yw ond newydd adael ei chartref ym Mhen-prysg, Pencoed.
- Aethom i 60fed penblwydd priodas Mr a Mrs Lewis o Nantyffyllon.
- Cafwyd presenoldeb da o blith yr Aelodau pan agorwyd Ysgol Brynmenyn gan y Prif Weinidog Carwyn Jones. Dyma'r pumed ysgol newydd i gael ei hagor mewn pum mlynedd, ac mae'n dangos ymrwymiad parhaus yr awdurdod i ddarparu addysg o'r safon uchaf.
- Ar ôl cyfarfod diwethaf y Cyngor, cawsom y pleser o godi lluman yr RAF i ddathlu 100 mlynedd ers ei ffurfio. Hoffem ddiolch i bawb a oedd yn bresennol i'n helpu i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon.
- Aethom i fore coffi Macmillan KPC a chinio Elusennol Clwb y Rotari er budd apêl Closer to Home Tenovus, a gododd dros £7,000 i'r achos ardderchog hwn.
- Roedd y Seminar Rhyng-ffydd a'r cinio yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, yn noson ragorol, ac yn gyfle gwych i gwrdd â phobl o bob cefndir a ffydd.
- Roedd gwobrau blynyddol Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd yng Nghoed-y-Mwstwr yn uchafbwynt arall a byddaf yn ymweld â'r holl enillwyr i'w

llongyfarch wyneb yn wyneb, i gwrdd â'u staff ac i weld y gwaith y maent yn ei wneud.

- Cafwyd presenoldeb da yng Ngwasanaeth Dinesig y Maer, a diolchodd i'r holl swyddogion a gymerodd ran am eu gwaith caled er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiant.
- Llongyfarchiadau i siop Ymchwil Canser Pen-y-bont ar Ogwr am fod ar agor ers 25ain mlynedd. Dros y cyfnod hwnnw, mae'r siop a'i chriw o wirfoddolwyr ymroddedig wedi codi dros £1.8 miliwn o bunnoedd.
- Roedd hi'n anrhydedd cael gwahoddiad i gyflwyno Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) i Mr John Berry i gydnabod y gwaith y mae wedi'i gyflawni ar hyd ei oes i'r YMCA. Pleser o'r mwyaf hefyd oedd gwahodd Mr Roger Hudd i'r swyddfeydd dinesig i dderbyn ei BEM am ei holl waith caled ar hyd y blynyddoedd er budd elusennau amrywiol.

I gloi, atgoffodd y Maer yr holl ddynion o blith y Cynghorwyr y byddai llun yn cael ei dynnu i gefnogi Ymgyrch y Rhuban Gwyn ar ôl y cyfarfod heddiw. Dylai'r Aelodau fod wedi derbyn e-bost ynghylch hyn eisoes oddi wrth y Cynghorydd David White, sef ein Hyrwyddwr Rhuban Gwyn, a byddai'n braf pe bai cynifer ag sy'n bosibl o'r dynion sy'n Gynghorwyr yn gallu cymryd rhan, er mwyn dangos ein cefnogaeth a'n hymrwymiad tuag at yr ymgyrch bwysig hon.

Y Dirprwy Arweinydd

Gobeithiai'r Dirprwy Arweinydd fod y gweithdy a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Cyngor wedi bod yn fuddiol ac yn addysgiadol i'r Aelodau, ac y byddai'r rhai nad oeddent wedi gallu dod i'r gweithdy yn gallu bod yn bresennol pan fyddai'r sesiwn yn cael ei hailadrodd ar yr un pwnc ar ôl cyfarfod y Cyngor.

Aeth ein hymgynghoriad ar y gyllideb heibio'r marc hanner ffordd yn ddiweddar, ac mae'n parhau i ddenu ymateb cryf, ond gofynnodd i'r holl Aelodau barhau i wneud pob ymdrech i annog eu hetholwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac i ddweud eu dweud.

Yr oedd yn hyderus y byddai'r Aelodau wedi gweld adroddiadau diweddar yn y cyfryngau ynghylch y gyllideb sydd ar ddod o fewn y Cyngor, a rybuddiai fod toriadau sylweddol i wasanaethau a chynnydd yn y dreth Gyngor bellach yn anochel.

Yn anffodus, yn dilyn dyraniad hynod siomedig, nid gor-ddweud yw hyn. Byddai'r Cyngor yn derbyn llai o arian yn sgil pwysau cynyddol

Bydd y cynnydd yng nghyflogau athrawon sy'n cael ei negodi ar raddfa genedlaethol yn cynyddu cyfanswm y diffyg yng nghyllideb y Cyngor eleni i fwy na £12 miliwn. Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n darparu cyllid ychwanegol er mwyn helpu i ysgwyddo'r pwysau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn, nid oedd unrhyw awgrym eto a fyddai'r arian yn ddigon i dalu'r gost yn llawn, neu a fyddai ond yn cyfrannu'n rhannol at y gost.

Ni fyddai cynnydd i'r dreth gyngor o oddeutu 5 y cant y flwyddyn nesaf yn ddigon i dalu traean hyd yn oed o'r diffyg sydd o flaen yr Awdurdod.

Nid oedd CBSPO bellach mewn sefyllfa i allu diogelu gwasanaethau a ystyrir gan lawer yn hanfodol, felly byddai toriadau sylweddol yn anochel o hyn allan.

Mae bron i dri chwarter y gyllideb yn mynd tuag at Ysgolion a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, ond mae'r Cyngor wedi cael ei orfodi i sefyllfa lle na all wneud unrhyw addewidion.

Y gwir amdani oedd fod y cynnydd yr oedd ar awdurdodau lleol ei angen heb fod yn ddigon i dalu costau sylfaenol. Yr oedd felly'n apelio ar yr holl Gynghorwyr, yn awr yn fwy nag erioed, i gydweithio.

Roedd yn rhaid i'r holl Aelodau fod yn realistig ynghylch y sefyllfa, a derbyn y byddai'n rhaid gostwng nifer o wasanaethau pwysig neu eu tynnu'n ôl yn llwyr hyd yn oed. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r Llywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru hefyd dderbyn na all y sefyllfa hon barhau am byth.

Mae angen ystyried cynifer o safbwyntiau ag sy'n bosibl, felly gofynnodd i'r Cynghorwyr annog eu hetholwyr i gwblhau'r ymgynghoriad ar y gyllideb.

Yr oedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor, ar ffurf copi caled ac mewn amrywiaeth o fformatau amgen, gan gynnwys dogfen hawdd ei darllen a dogfen wedi'i llunio'n arbennig i breswylwyr iau.

Yn rhan o'r ymgynghoriad, mae dadl yn cael ei threfnu ar y cyfryngau cymdeithasol ar 7 Tachwedd er mwyn helpu i annog cynifer o bobl ag sy'n bosibl i gymryd rhan cyn dirwyn y broses i ben ar gyfer y cam dadansoddi.

Ar ôl eu llenwi, y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd yr holl arolygon ymgynghori yw 18 Tachwedd 2018. Gorffennodd drwy ddweud y byddai angen gwneud penderfyniadau anodd iawn ar ôl hynny.

<u>Yr Aelod Cabinet - Cymunedau</u>

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod storm fawr gyntaf y tymor wedi pasio, a bod gweithwyr cyngor wedi bod yn ei chanol hi unwaith eto wrth i staff ymroddgar sicrhau bod popeth yn parhau i redeg yn llyfn.

Roedd gylïau yn cael eu jetio yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw rwystrau ynddynt, ac ymatebodd ein harolygwyr priffyrdd, ein goruchwylwyr a'n timau draenio i sawl digwyddiad, gan ddatrys nifer o broblemau er mwyn atal y rheiny rhag datblygu'n broblem fwy.

Roedd y Cyngor wedi dosbarthu nifer fawr o sachau tywod, wedi ymateb i adroddiadau o lifogydd lleol ac wedi symud amryw o goed a oedd wedi disgyn er mwyn cadw ffyrdd yn ddiogel a'r fwrdeistref sirol yn symud.

Roedd synwyryddion llifogydd yn ein hysbysu bod lefelau'r dŵr yn codi, yn enwedig yn Heol Faen, Greenacre a Stryd Wyndham. Fel o'r blaen, achoswyd hyn gan law trwm iawn, ond hefyd gan falurion a sbwriel a oedd wedi'i dipio'n anghyfreithlon ac a olchodd i lawr yr afonydd gan greu rhwystr mewn draeniau a cheuffosydd.

Fel y gallai'r Aelodau ei ddychmygu, gwaith anodd ac annifyr yn yr oerfel oedd hwn, ond roedd ein staff bob amser ar gael i ymateb a helpu.

Yr oedd yn sicr y byddai'r Aelodau am gydnabod eu hymdrechion, a diolch i bawb a gyfrannodd at gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Rydym wedi derbyn dros £1.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ariannu cynlluniau Teithio Egnïol pellach. Pwrpas y cynlluniau hyn yw ei gwneud hi'n haws i breswylwyr adael eu ceir gartref wrth deithio'n lleol, a bydd yr arian yn cael ei wario ar amryw o gynlluniau a gwelliannau.

Bydd y buddsoddiad unigol mwyaf o £500,000 yn cwblhau'r ddolen gyswllt goll rhwng Llangrallo ac Ysgol Gyfun Pencoed, drwy greu llwybr oddi ar y ffordd i gerddwyr a beicwyr ar Heol Llangrallo.

Porthcawl sy'n elwa ar yr ail fuddsoddiad mwyaf, sef £450,000, drwy ymestyn y llwybr teithio egnïol ar hyd Promenâd y Dwyrain o Draeth Coney er mwyn iddo barhau at Ysgol Gynradd y Drenewydd yn Notais ar hyd Heol Newydd.

Roedd gwaith arall wedi'i gynnwys yn rhan o'r cyllid, a byddwn hefyd yn ei fuddsoddi yng nghostau dylunio a dichonadwyedd yr wyth cynllun Teithio Egnïol nesaf sydd yn yr arfaeth.

Mae'n cymryd amser, egni ac arian i sefydlu gwelliannau Teithio Egnïol, ac yr oedd yn falch o weld y modd y mae rhwydwaith eang lleol o lwybrau beicio a cherdded yn dod ynghyd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

<u>Yr Aelod Cabinet - Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Cafodd gwasanaethau gwarchod a diogelu ein preswylwyr mwyaf bregus hwb sylweddol yn ddiweddar wedi i'r Aelod Cabinet uchod gyhoeddi lansiad swyddogol Canolfan Diogelu Aml-asiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Daeth y gwasanaeth integredig newydd, a elwir hefyd yn MASH, yn weithredol ym mis Medi. Dyma'r drydedd ganolfan o'i math yng Nghymru.

Mae MASH wedi'i lleoli yn swyddfeydd Ravens Court ac yn dod â thros 80 o weithwyr proffesiynol ynghyd, gan gynnwys swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion lles addysg, nyrsys swyddogion prawf a mwy.

Mae'n ymdrech bartneriaethol wirioneddol a'r nod yw ei gwneud hi'n haws rhannu gwybodaeth yn fwy effeithlon fel bo modd cynnal asesiadau cynt, gan sicrhau drwy hynny y gall pobl fregus dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Dyma ddatblygiad hynod arwyddocaol sy'n dangos sut rydym yn canfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau hanfodol, ac mae'n ychwanegiad i'w groesawu i drefniadau diogelu presennol y fwrdeistref sirol.

Efallai y bydd yr Aelodau hefyd wedi sylwi y bu hi'n Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol yn ddiweddar. O'n safbwynt ni yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae pob wythnos yn wythnos mabwysiadu a maethu. Fel y gwyddoch, mae gennym staff ymroddedig sy'n gweithio i recriwtio mwy o bobl a all gynnig cartref i blant bregus.

Mae ein hymgyrchoedd 'nyth wag' a 'phontio'r bwlch' a gynhaliwyd yn ddiweddar, yn targedu aelwydydd lle gallai'r plant fod wedi tyfu i fyny a symud i ffwrdd, ac rydym yn chwilio am bobl dros 21 oed, sy'n ffit ac yn ddigon iach i ofalu am blant, a chanddynt ystafell wely sbâr ac sy'n gallu cynnig cartref sefydlog i blentyn lleol.

Os hoffai unrhyw un gael rhagor o wybodaeth, gellir ymweld â gwefan Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr, neu ffonio'r tîm maethu ar 642674.

Mae CBSPO wedi ennill Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru am ei raglen i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, sef BAFTAs y byd gofal cymdeithasol.

Enillodd yr awdurdod y wobr gyntaf yn y categori 'Datblygu gweithlu hyderus a chynaliadwy' yn y seremoni wobrwyo anrhydeddus a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas Caerdydd.

Roedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, yn falch dros ben o gael cydnabyddiaeth am y ffordd ddychmygus y mae ein rhaglen yn helpu gweithwyr cymdeithasol newydd i gael y cychwyn gorau posib i'w gyrfa.

Bydd gweithwyr cymdeithasol newydd yn cael cefnogaeth ac yn cael eu haddysgu a'u mentora drwy gymysgedd o weithdai mewnol a digwyddiadau hyfforddi gyda siaradwyr allanol, a hefyd drwy sesiynau mentora unigol a grŵp.

Gorffennodd drwy ddweud mai pwrpas yr 'Acolâdau' deuflynyddol, a drefnir gan Gofal Cymdeithasol Cymru gyda chefnogaeth partneriaid a noddwyr yw gwobrwyo arfer rhagorol ym maes gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ei bod hi'n wych gweld bod y datblygwyr Lovell yn creu 48 o gartrefi newydd fforddiadwy ynni-effeithlon o ansawdd uchel i bobl leol ar Heol Llangrallo ar ôl cael eu dewis gan Tai Hafod.

Datblygwyd y cynllun dylunio ac adeiladu gwerth £5.4 miliwn mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd yn sicrhau cartrefi rhent cymdeithasol newydd y ceir angen mawr amdanynt.

Bydd y datblygiad newydd yn creu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth sylweddol i bobl leol, gan gynnwys 3 prentisiaeth, 6 swydd, 7 hyfforddeiaeth taledig a thros 150 o oriau o leoliadau profiad gwaith.

Bydd y tai yn cael eu cwblhau fesul cam, a bwriedir i'r tai olaf fod yn barod i fyw ynddynt ym mis Mai 2019.

Manteisiodd ar y cyfle hefyd i atgoffa'r aelodau mai Mis Hanes Pobl Dduon yw mis Hydref, a gofynnodd i'r aelodau helpu i hyrwyddo digwyddiad Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru.

Roedd y digwyddiad yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 30 Hydref yng Ngholeg Pen-y-bont, ac roedd wedi'i anelu at Pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Y gobaith oedd cael dealltwriaeth well o'u profiadau o'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Pe bai'r Aelodau yn gwybod am unrhyw un a fyddai'n awyddus i fod yn bresennol, gofynnodd iddynt gysylltu â Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y Cyngor am fwy o fanylion.

Yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Roedd yr Aelod Cabinet uchod yn dymuno llongyfarch Ysgol Gynradd Oldcastle am gefnogi cynllun cynilo i blant a drefnir gan Undeb Credyd Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr.

Cymerodd tua 76 o blant ran yn wythnos gyntaf y cynllun gan gynilo £340 o'u harian poced.

Mae 236 o blant bellach yn aelodau, ac mae'r ysgol wedi cynilo cyfanswm o £11,900 hyd yma.

Fel cwmnïau cydweithredol ariannol sy'n eiddo i'w haelodau, gall undebau credyd dderbyn arian a chynnig benthyciadau llog isel.

Mae'r fenter yn addysgu'r disgyblion ynghylch pwysigrwydd cynilo a materion ariannol, ac yn cefnogi datblygiad sgiliau fel rhifedd, gweithio mewn tîm, cyfathrebu a mwy.

Mae'r ysgol wedi ennill y wobr gyntaf gan Undebau Credyd Cymru am ei hymdrechion.

Gan fod ymchwil gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn dangos bod peryg na fydd un o bob chwech yng Nghymru yn gallu cwblhau ad-daliadau ar gredyd, mae'r cynllun fwy buddiol nag erioed. Mynegodd ddiolch i bawb fu'n ymwneud â'r fenter.

Yr oedd yn gobeithio bod yr Aelodau wedi gweld yr adroddiad diweddar am y datblygiadau diweddaraf ym Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, i'r rhai nad oeddent wedi'i weld, dywedodd fod pum busnes newydd wedi llofnodi les ar gyfer stondinau ers lansio ein cynllun i adfer ffyniant y farchnad, a bod disgwyl cyhoeddiadau pellach yn fuan.

Mae'r stondinau newydd yn cynnig cymysgedd amrywiol o nwyddau sy'n amrywio rhwng hen finyl, bwyd iechyd protein ac anrhegion Cymreig a dillad boutique a chyflenwadau o wlân ac offer gwnïo arbenigol.

Bydd yr Aelodau hefyd yn gweld gwaith i weddnewid y tu allan i'r farchnad wrth i gyfres o baneli  darluniadol gael eu codi, ac wrth symud hen gloch y farchnad i fan amlycach.

Rydym wedi gweithio'n agos â masnachwyr y farchnad, Canolfan Siopa Rhiw, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, grŵp gwella busnes CF31, Watts and Morgan ac aelodau etholedig lleol ar hyn, ac mae'n tystio i'r hyn y gellir ei gyflawni o weithio mewn partneriaeth.

Mae'r newyddion wedi cael derbyniad da iawn, yn enwedig yn y cyfryngau cymdeithasol, ac y argoeli'n dda ar gyfer datblygiadau a mentrau pellach yn y dyfodol.

Yn olaf, efallai y bydd yr Aelodau hefyd am ddweud wrth eu hetholwyr fod derbyniadau ysgol uwchradd ar gyfer mis Medi 2019 bellach ar agor, a bod rhieni a gwarcheidwaid yn gallu cyflwyno ceisiadau ar-lein am y tro cyntaf drwy ddefnyddio ffurflen sydd ar gael yn adran 'Fy Nghyfrif' ar wefan y Cyngor.

<u>Y Prif Weithredwr</u>

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi cychwyn cyfres o adolygiadau rheoli ar draws y sefydliad.  Bydd pob Cynghorydd eisoes wedi derbyn trosolwg o'r strwythur uwch reoli yng Nghyfarwyddiaeth newydd y Prif Weithredwr.

Ddoe, penodwyd Zak Shell i rôl Pennaeth Gweithrediadau yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau ar ôl proses ddethol mewn arddull canolfan asesu yn seiliedig ar gymhwysedd.

Mae newidiadau pellach i'r drydedd haen hefyd yn mynd rhagddynt yn y Gyfarwyddiaeth honno, a byddai'r Aelodau yn cael gwybod am y strwythur uwch pan fyddai wedi'i gwblhau.

Ychwanegodd fod newidiadau pellach i reolwyr trydedd haen hefyd wedi'u cwblhau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, a bod ymgyngoriadau pellach ar y gweill o fewn y Gyfarwyddiaeth.

Yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, mae'r swyddogaethau Dysgu a Sgiliau Oedolion wedi cael eu symud i fod yn rhan o'r gyfarwyddiaeth addysg, gan alinio ein darpariaeth dysgu a sgiliau yn well o'r blynyddoedd cynnar yr holl ffordd at oedolion oed gwaith. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw newidiadau i uwch reolwyr ond yn cael eu hystyried ar ôl inni gwblhau archwiliad o opsiynau i gydweithio â Chyngor Merthyr.

Nod yr holl newidiadau hyn yw taro cydbwysedd, gan ymateb i'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y staff wrth i'r gyngor leihau fel sefydliad, gwireddu arbedion ariannol a pharhau â'n hymgyrch i integreiddio swyddogaethau'n agosach o hyd i gefnogi'r ymagwedd 'Un Cyngor'.

Efallai fod yr Aelodau'n ymwybodol bod rhaglen adsefydlu ffoaduriaid Llywodraeth y DU yn helpu i ddarparu llety saff a diogel i deuluoedd sy'n ffoi i ryfeloedd y Dwyrain Canol.

Disgwylir i hyd at 1,500 ymgartrefu yng Nghymru, a hyd yma mae chwe theulu, sef cyfanswm o 31 o bobl, wedi cael eu hailgartrefu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, lle maent wedi integreiddio'n llwyr i fywyd lleol.

Cytunwyd yn ddiweddar yng nghyfarfod y Cabinet ddoe i gartrefu pum teulu arall rhwng nawr a 2020. Mae Llywodraeth y DU yn neilltuo cyllid penodol i alluogi hyn, a byddwn yn cydweithio â Thai Hafod i gefnogi'r teuluoedd hynny.

Fel o'r blaen, bydd Hafod yn rheoli tenantiaethau yn y sector rhentu preifat ar gyfer y teuluoedd, ac felly ni cheir unrhyw effaith na sgil-effaith ar y rhestr tai bresennol.

Os yw hi'n dal yn anniogel iddynt ddychwelyd adref ar ôl pum mlynedd, bydd y ffoaduriaid yn gallu gwneud cais i Lywodraeth y DU i gael aros yn y DU.

Ceir diweddariadau pellach wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol o'r amrywiaeth helaeth o waith a gyflawnir gan gymunedau ffydd o bob enwad, sydd yn aml iawn yn gweithio ar agendâu sydd hefyd yn bwysig i ni a'n partneriaid. Er enghraifft, cefnogi pobl sydd yn ddigartref, neu sydd mewn perygl o golli eu cartref, cefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi neu greu cysylltiadau rhwng pobl ac ymdrin ag achosion o unigedd.

Mae'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae Pen-y-bont ar Ogwr yn aelod ohono yn trefnu digwyddiad ym mis Tachwedd i gyd-daro â'r wythnos rhyng-ffydd. Bydd y digwyddiad yn dod â chynrychiolwyr o'r sefydliadau hynny ynghyd ac yn gyfle i ryngweithio a chyfnewid syniadau ac ymagweddau. Bwriedir i'r digwyddiad hefyd fod yn gyfle ar gyfer rhyngweithio rhwng y sefydliadau hyn a rhai asiantaethau statudol sy'n gweithio i ddatrys problemau tebyg, fel y gwasanaeth tân, gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau tai.

Swyddog Monitro

Roedd y Swyddog Monitro yn dymuno hysbysu'r Aelodau fod cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ychwanegu at Raglen Cyfarfodydd 2018/19, er mwyn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r eitemau niferus sydd wedi'u cynnwys ym Mlaenraglen Waith Flynyddol gyfredol y Pwyllgorau. Cynhelir y cyfarfod ddydd Iau 13 Rhagfyr 2018 am 2.00pm yn y swyddfeydd hyn. Mae'r Swyddogion Cyllid a'r Cadeirydd wedi cytuno y dylid ychwanegu'r cyfarfod at y Rhaglen Gyfarfodydd, ac mae Aelodau'r Pwyllgor wedi cael gwybod bod angen cynnal cyfarfod ychwanegol.
Gofynnir i'r Cyngor nodi'r wybodaeth hon, a bydd y cyfarfod yn cael ei ychwanegu at galendrau electronig Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fuan.

Atgoffodd yr Aelodau hefyd y byddai ffurflen yn cael ei hanfon atynt yn fuan i'w llenwi ynghylch Gwiriadau Datgelu a Gwahardd. Roedd angen dychwelyd y ffurflen i'r Cyngor erbyn **????**Tachwedd ar yr hwyraf. (Holi Kelly)

227. I DDERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Atgoffodd yr Arweinydd yr holl aelodau fod Darren Mepham yn gadael yr awdurdod yn y Flwyddyn Newydd i'w rôl newydd fel Prif Weithredwr coleg addysg bellach Barnett and Southgate yng ngogledd Llundain.

Manteisiodd ar y cyfle i longyfarch Darren. Roedd yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y chwe blynedd y bu'n gyflogedig yno, ac wedi wynebu rhai o'r amgylchiadau mwyaf heriol a welwyd erioed o fewn y Cyngor.

Mae hyn wedi cynnwys datblygiadau fel newid bwrdd iechyd, gweithio drwy heriau ariannol anodd i sicrhau cyllideb gytbwys a sefyllfa ariannol gadarn, cydweithio mwy â chynghorau cyfagos ee drwy rannu gwasanaethau rheoleiddio, newidiadau radical er mwyn symleiddio trefniadau rheoli'r holl gyfarwyddiaethau, gan gynnwys sefydlu cyfarwyddiaeth newydd i gyfuno mwyafrif ein gwasanaethau corfforaethol, ac wrth gwrs, y mae wedi sicrhau mwy na thraean o ostyngiad mewn costau uwch reoli.

Byddai Darren yn aros gyda CBSPO dros y tri mis nesaf a bydd yn parhau i gyflawni rôl arweinyddol ymarferol dros y cyfnod hwnnw. Fel awdurdod byddem yn ceisio penodi unigolyn yn barhaol i'r swydd cyn gynted ag sy'n bosibl. Yr oedd wedi bod yn siarad, a byddai'n siarad ymhellach â chydweithwyr yn y Cabinet ac arweinwyr grŵp ynghylch y trefniadau dros dro yr oedd angen eu gwneud.

Bydd Darren yma yn nau gyfarfod nesaf y Cyngor cyn dechrau ei rôl newydd, felly nid heddiw oedd yr adeg i ffarwelio.

Mae gennym uwch dîm rheoli galluog a medrus iawn a chanddynt ddegawdau o brofiad rhyngddynt, ac roedd yr Arweinydd yn hyderus iawn bydd ein holl raglenni uchelgeisiol yn parhau i symud ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd £1.5 miliwn o gyllid gan yr UE yn cael ei fuddsoddi yng nghanolfan chwaraeon dŵr newydd sbon Porthcawl yn Rest Bay. Mae'r cyllid yn cael ei ddarparu yn rhan o raglen Cyrchfan Denu Ymwelwyr newydd Llywodraeth Cymru, a lansiwyd gan Croeso Cymru i greu 13 o gyrchfannau y mae'n rhaid i ymwelwyr eu gweld. Un o'r cyrchfannau hyn fydd y ganolfan chwaraeon dŵr, ac fe'i dyluniwyd i apelio i rai sy'n ymddiddori mewn chwaraeon dŵr ledled De Cymru a thu hwnt. Mae'r gwaith wedi dechrau, a 'bwrdd selffi' wedi cael ei osod ar ffensys a osodwyd o amgylch y safle adeiladu er mwyn lleihau effaith weledol y gwaith, ac i ddangos ein bod yn ymdrechu i sicrhau bod Porthcawl yn parhau i dyfu a ffynnu fel un o brif gyrchfannau arfordir Cymru.

Cyhoeddodd yr Arweinydd mai pleser o'r mwyaf oedd bod yn bresennol wrth i'r Prif Weinidog agor adeilad newydd sbon Ysgol Gynradd Brynmenyn yr wythnos diwethaf. Nid yw'r ysgol gwerth £9 miliwn ond yn un o'r ysgolion diweddaraf i gael ei darparu yn rhan o'n rhaglen flaenllaw i foderneiddio ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif. Daw'r agoriad yn fuan iawn ar ôl agoriad swyddogol adeilad newydd Ysgol Betws.

Roedd yr hen eiddo ar Heol Bryn dros ganrif oed, ac nid oedd modd ei ehangu gan fod tir comin yn ei amgylchynu.

Mae'r ysgol newydd ddwywaith mor fawr ac yn cynnwys meithrinfa, 14 ystafell ddosbarth fawr ac ynddynt dechnoleg dysgu fodern, cyfleusterau addysgol o'r radd flaenaf, a thros 14,000 metr sgwâr o ofod agored wedi'i ddylunio'n arbennig. Mae hyn yn wahanol i'r hen safle ac arno iard fechan a dim un darn o laswellt.

Yn ei chartref newydd drws nesaf i Goleg Cymunedol y Dderwen, mae ganddi faes parcio penodedig a pharthau gollwng a chodi diogel. Mae'r ysgol hefyd yn coffáu arwres fu'n gweithio yn yr ysgol fel athrawes gynorthwyol. Bu farw ym 1911 wrth achub disgybl rhag boddi.

Yn rhannol gan ei fod ar ochr bryn, nid oedd hen adeilad yr ysgol yn hygyrch i blant ag anableddau corfforol sylweddol. Un o'r nifer o fanteision yn gysylltiedig â chartref newydd yr ysgol yw bod modd i blant lleol nad oeddent yn gallu cael eu haddysgu yn yr hen leoliad fynychu eu hysgol gymunedol o hyn allan. Roedd clywed mam un o'r bechgyn bach sydd bellach ym Mrynmenyn oherwydd y cyfleusterau modern a chwbl hygyrch yn dweud yr hyn y mae'n ei olygu iddi yn atgoffa rhywun o'r gwahaniaeth y mae'r buddsoddiad hwn wedi'i wneud, yn ogystal â gwrando ar areithiau emosiynol Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn yr agoriad swyddogol.

Gall Ysgol Brynmenyn ymfalchïo yn ei hanes, ac yn sgil ymdrechion pawb sydd wedi cyfrannu at gyflawni'r prosiect hwn, mae dyfodol yr ysgol yn ddisglair hefyd.

228. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-18

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a gyflwynai Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2017-18 (wedi'i gynnwys yn Atodiad A) i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor.

Dechreuodd ei gyflwyniad drwy ddweud ei bod hi'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad o'i berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, cyn 31 Hydref.

Roedd y Cynllun wedi diffinio 38 o ymrwymiadau i gyflawni'r tri amcan llesiant ac wedi nodi 53 o ddangosyddion a ganolbwyntiai ar ganlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.

Nod/amcan y Cynllun oedd mesur perfformiad y Cyngor yn 2017-18, drwy ddefnyddio mesuriadau llwyddiant a mathau eraill o dystiolaeth yn seiliedig ar ffeithiau

Ym mharagraff 4.2 yr adroddiad, cadarnhawyd bod y Cyngor yn perfformio'n dda yn ystod y cyfnod uchod, ac o'r 37 o ymrwymiadau a gariwyd drosodd, cwblhaodd y Cyngor 29 o'r rheiny'n llawn (bron 79%) a llwyddo i gwblhau rhan helaeth o'r 6 ymrwymiad arall (16%). Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y rhain bron â chael eu cwblhau, ac esboniodd pam nad oeddent wedi'u cwblhau'n llawn hyd yma.

Nodwyd 53 o ddangosyddion i fesur llwyddiant yn y Cynllun Corfforaethol, ac roedd 51 o ddangosyddion wedi cael eu casglu ar gyfer y flwyddyn. O'r rhai a chanddynt darged, dywedodd fod y Cyngor wedi cyrraedd neu ragori ar bron 69% o'r targedau, ac wedi bod o fewn dim i gyrraedd 10% o dargedau eraill. Roedd gwybodaeth fanwl am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ymrwymiadau a'i dargedau wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn rhoi crynodeb o gyllidebau ar gyfer y flwyddyn, canfyddiadau rheoleiddwyr, themâu sy'n tanategu ein gwaith a throsolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gorffennodd ei gyflwyniad drwy gadarnhau y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael ei rannu â rhanddeiliaid. Byddai copïau caled o'r adroddiad hefyd yn cael eu cynhyrchu a'u rhoi yn llyfrgelloedd cyhoeddus y Cyngor.

Ailbwysleisiodd yr Arweinydd eiriau'r Prif Weithredwr, gan ychwanegu y byddai'r 6 ymrwymiad sydd heb eu cwblhau ar hyn o bryd yn cael eu cwblhau ar y cyfle cyntaf. Cymeradwyodd hefyd y gwaith a gyflawnwyd hyd yma, er enghraifft Cynllun Pontydd i Waith a Phrosiect Kerrigan.

Ychwanegodd un o'r Aelodau y byddai'n dda pe bai'r holl Aelodau'n cael cyfle i weld y Cyflwyniad yn gysylltiedig â'r rhaglen 'Get on Track' a roddwyd yn flaenorol i rai o'r Aelodau a Swyddogion gan Jodie Coupland, cyn-ddisgybl o Ysgol Bryn Castell.

Rhoddwyd esboniad o'r rhaglen yn y paragraff olaf ond un ar dudalen 36 o'r Atodiad. Teimlai'r Aelodau y byddai hyn yn werth chweil.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol 2017-18, a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad cyflwyno.

229. RHEOLI'R TRYSORLYS - ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN 2018-19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog A151 adroddiad er mwyn cydymffurfio â gofyniad yn nogfen y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (y Cod), i roi trosolwg o weithgareddau trysorlys fel rhan o adolygiad canol blwyddyn. Rhoddai'r adroddiad hefyd grynodeb o'r gweithgarwch Rheoli Trysorlys o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2018, ac adroddai ar ragamcanion Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus 2018-19.

Roedd yr adroddiad wedi'i seilio ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMS) ar gyfer 2018-19 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2018.

Esboniodd fod CIPFA wedi cyhoeddi rhifynnau newydd o Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus@ Cod Ymarfer a'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn hwyr ym mis Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, mae TMS (a'r adroddiad hwn yn sgil hynny) wedi cael eu llunio drwy ddefnyddio Codau 2011, oherwydd amseriad y newid, ac yr oedd rhywfaint o wybodaeth yn dal heb ei chyhoeddi pan gynhyrchwyd y TMS.

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ddiwygiad i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) sy'n galluogi'r Cyngor i fuddsoddi mewn rhai offerynnau a oedd gynt yn cael eu trin fel gwariant cyfalaf (er enghraifft, Cronfeydd y Farchnad Arian) heb y gost refeniw bosibl yn gysylltiedig â Darpariaeth Refeniw Isafswm (MRP) a heb ystyried enillion y gwerthiant fel derbyniad cyfalaf.

Dangoswyd sefyllfa'r Cyngor o ran buddsoddiadau a dyledion allanol o 1 Ebrill hyd 30 Medi 2018 yn nhabl 1 yn yr adroddiad, a rhoddwyd mwy o fanylion yn adran 4.3 yr adroddiad, y Strategaeth a'r Alldro Benthyca, ac adran 4.4 a esboniai'r Strategaeth Buddsoddi ac Alldro.

Er gwybodaeth i'r Aelodau, dywedwyd bod Cyfradd y Banc wedi dechrau'r flwyddyn ariannol ar 0.50% ac wedi parhau ar y gyfradd honno hyd 2 Awst 2018, pan gafwyd cynnydd o 0.25% yng nghyfradd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr o 0.75%. Yn ôl y rhagolygon presennol, ceir cynnydd pellach o 0.25% yng Nghyfradd y Banc erbyn mis Mawrth 2019, gan gyrraedd 1% erbyn diwedd 2018-19.

Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi yn yr adroddiad:

Cyfanswm y dyledion allanol gros a oedd yn weddill ar 30 Medi 2018 oedd £117.52 miliwn, a oedd yn cynnwys:

- Roedd y £96.87 miliwn o fenthyciadau yn cynnwys:

- £77.62 miliwn yn gysylltiedig â benthyciadau hirdymor gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) (cyfradd gyfartalog o 4.70%)

- £19.25m a chanddo ddyddiad aeddfedrwydd o 2054 yn gysylltiedig â benthyciadau LOBO a all gael eu hailamserlennu cyn y dyddiad aeddfedrwydd (cyfradd gyfartalog o 4.65%)

Byddai'r Cyngor yn dewis ad-dalu'r benthyciadau LOBO heb unrhyw gostau pe bai'n cael cyfle i wneud hynny yn y dyfodol.

Yn dilyn cyngor TM Advisers Arlingclose, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog A151 fod y Cyngor wedi cysylltu â'r rhoddwr benthyciadau LOBO i drafod opsiynau ad-dalu posibl yn 2017-18. Fodd bynnag, tybiwyd bod y premiwm yn rhy ormodol i weithredu hynny, ond byddai'r Cyngor yn dewis ad-dalu'r benthyciadau hyn heb unrhyw gostau pe bai'n cael cyfle i wneud hynny yn y dyfodol.
Y tro diwethaf i'r Cyngor dderbyn benthyciad hirdymor, derbyniodd fenthyciad o £5 miliwn oddi wrth y PWLB ym mis Mawrth 2012, ac ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw fenthyciad hirdymor newydd yn 2018-19.

Mae'r ffigur o £20.65 miliwn ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor eraill yn cynnwys £17.32 miliwn am drefniant Menter Cyllid Preifat (PFI) yr awdurdod ar gyfer darparu ysgol uwchradd ym Maesteg a £2.40 miliwn yn gysylltiedig â benthyciad o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog gan LIC ar gyfer gwaith adfywio yng Nghwm Llynfi nad yw wedi dechrau eto.

Roedd Buddsoddiadau'r Trysorlys a oedd yn weddill ar 30 Medi 2018 yn creu cyfanswm o £34.30 miliwn (cyfradd gyfartalog o 0.81%) ac yn cynnwys:

- £8m ar gyfradd gyfartalog y banciau o 0.85%
- £1 miliwn ar gyfradd gyfartalog y Cymdeithasau Adeiladu o 0.80%
- £23 miliwn ar gyfradd gyfartalog Awdurdodau Lleol o 0.80%
- £2.30 miliwn ar gyfradd gyfartalog Cronfa'r Farchnad Ariannol o 0.69% (yn cynnig mynediad ar unwaith)

Roedd Tabl 2 yn yr adroddiad yn dangos y proffil buddsoddi o 1 Ebrill, £30.40 miliwn hyd 30 Medi 2018, £34.30 miliwn.

Manylodd Tabl 3 ar y £34.30 miliwn fesul math o wrthbarti yn seiliedig ar y cyfnod aeddfedrwydd a oedd yn weddill ar 30 Medi 2018.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol wrth y Cabinet a'r Cyngor yn 2017-18, agorodd y Cyngor Gronfa'r Farchnad Arian (MMF) ym mis Awst 2017, sef offeryn ariannol a gymeradwyir yn TMS sy'n cynnig mynediad ar unwaith i'r arian).

Sefydlodd y Cyngor MMFs ychwanegol ym mis Medi 2018 (pob un wedi'i chymeradwyo gan Arlingclose) yn ogystal â sefydlu porthol ar y we (yn rhad ac am ddim i'r Cyngor) er mwyn symleiddio ac effeithloni pob agwedd ar MMFs, o gynnal cyfrifon hyd at fasnachu ac adrodd. Ni chwblhawyd yr MMFs newydd na'r broses o ymgeisio am borthol hyd 30

Medi 2018, ond disgwylir iddynt gael eu defnyddio o fis Hydref 2018 ar ôl cwblhau'r broses o'u sefydlu.

O ran buddsoddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r trysorlys, er nad oedd y rhain yn cael eu hystyried yn weithgareddau rheoli'r trysorlys ac felly heb eu cynnwys yng Nghod CIPFA nac yng Nghanllawiau LIC, caiff y Cyngor hefyd brynu eiddo i ddibenion buddsoddi a rhoi benthyciadau a buddsoddi i ddibenion yn gysylltiedig â gwasanaeth. Er enghraifft, mewn tai rhanberchnogaeth, neu fel benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i is-gyrff y Cyngor. Bydd y benthyciadau a'r buddsoddiadau hynny'n ddarostyngedig i brosesai cymeradwyo arferol y Cyngor ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf, ac ni fydd angen iddynt gydymffurfio â TMS.

Esboniodd fod buddsoddiadau presennol y Cyngor, nad ydynt yn gysylltiedig â'r trysorlys, yn ymwneud ag eiddo, ac mai'r balans anarchwiliedig a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2018 oedd £4.36 miliwn.

Yna rhoddodd grynodeb o'r wybodaeth yn Atodiadau'r adroddiad, fel a ganlyn:

Atodiad A - Mae'r Strategaeth Fuddsoddi yn TMS 2018-19 yn diffinio ansawdd credyd uchel fel sefydliadau a gwarantau a chanddynt sgôr credyd o A- neu'n uwch, ac mae'r tabl hwn yn dangos cywerthedd sgoriau credyd Fitch, Moody a Standard & Poor ac yn esbonio'r gwahanol raddau buddsoddi. Mae'r siart pi ym mharagraff 4.4.10 yr adroddiad, yn crynhoi'r £34.30 miliwn o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2018 yn ôl eu sgôr credyd, ac yn dangos hyn yn ôl y ganran sy'n weddill. Nid oes gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol sgoriau credyd, ac fe gafodd y gymdeithas adeiladu heb sgôr ei chymeradwyo gan Arlingclose, tra bod gan yr holl fuddsoddiadau sy'n weddill sgôr credyd o A neu'n uwch.

Atodiad B - Cymeradwyodd y Cyngor bolisi MRP diwygiedig ar gyfer 2018-19 ar 19 Medi 2018 a dangoswyd Datganiad MRP 2018-19 diwygiedig, sy'n diwygio'r dull o gyfrifo swm darbodus blynyddol i'w godi ar refeniw er mwyn ad-dalu costau cyllid cyfalaf. Mae diwygio'r Polisi MRP 2018-19 ar gyfer cyfrifo MRP ar wariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca â chymorth wedi arwain at newid o'r dull gostwng balans 4% i ddull llinell syth dros 45 o flynyddoedd. Diwygiwyd y ffigurau yn Atodiad B i adlewyrchu newid bach o gymharu â'r adroddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor,
i adlewyrchu'r wybodaeth fwy diweddar sydd ar gael, a mân addasiad cyfrifyddu yn 2018-19.

Atodiad C - yn manylu ar Reoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus 2018-19 o fewn y Cyngor, ac yn dangos yr amcangyfrif ar gyfer 2018-19 (a nodwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror) yn ogystal â'r rhagamcan ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain yn dangos bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r terfynau cymeradwy.

Er bod yr hinsawdd ariannol yn hynod heriol, roedd y Dirprwy Arweinydd am gofnodi bod yr adroddiad yn dystiolaeth glir fod y Cyngor yn dal mewn dwylo cymharol ddiogel oherwydd ymroddiad a phroffesiynoldeb Swyddogion Cyllid.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

(1) Yn cymeradwyo gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd 30 Medi 2018.
(2) Yn nodi rhagamcanion Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus 2018-19 yn erbyn y Dangosyddion a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018-19.

230. ADRODDIAD I'W NODI

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r Cyngor am yr Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi a oedd wedi cael ei gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a amserlennwyd.

Manylwyd ar yr Adroddiad Gwybodaeth dan sylw ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. Teitl yr Adroddiad oedd 'Swyddfa Archwilio Cymru - Trosolwg a Chraffu - Addas i'r Dyfodol?'

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio fod adroddiad ar y testun hwn wedi cael ei ystyried a'i drafod gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a nodwyd yn yr adroddiad.

231. I DDERBYN Y CWESTIYNAU DILYNOL I'R CABINET

**Cwestiwn i'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio oddi wrth y Cyng. T Thomas.**

‘A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad ynghylch y nifer sy'n sefyll Cymraeg Safon Uwch ar draws ysgolion y Fwrdeistref Sirol?'

**Ymateb**

**Cymraeg (Iaith 1af) Safon Uwch**

Yn 2017, safodd 10 myfyriwr o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr Safon Uwch Cymraeg Iaith 1af. Ledled Cymru, yn 2017, safodd 214 o fyfyrwyr Safon Uwch Cymraeg Iaith 1af. Gan hynny, daeth 5% o'r holl geisiadau Safon Uwch Cymraeg Iaith 1af o ysgolion ledled Cymru yn 2017 o Ben-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn debyg i nifer y ceisiadau yn 2016, o gymharu â gostyngiad o 13% ledled Cymru ers 2015.

Mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-E ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru. Roedd canran y disgyblion a enillodd raddau A*-C ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn 2015, ond yn is na'r cyfartaledd hwnnw yn 2016 a 2017. Bydd cynifer o fyfyrwyr yn sefyll Safon Uwch Cymraeg Iaith 1af yn 2018 â nifer y ceisiadau yn 2016 o leiaf.

Ledled Cymru, cafwyd gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg Iaith 1af o 280 yn 2015 i 214 yn 2017. Yn yr un modd, cafwyd gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n astudio Safon UG Cymraeg Iaith af o 280 yn 2014 i 218 yn 2017.

**2. Cymraeg (2il Iaith) Safon Uwch**

Yn 2017, safodd 29 o fyfyrwyr o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr Safon Uwch Cymraeg 2il Iaith. Ledled Cymru, yn 2017, safodd 242 o fyfyrwyr Safon Uwch Cymraeg 2il Iaith. Gan hynny, daeth 12% o'r holl geisiadau Safon Uwch Cymraeg 2il Iaith o ysgolion ledled Cymru yn 2017 o Ben-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o gymharu â 2016.

Roedd canran y disgyblion a enillodd raddau A* - C yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd canran disgyblion Pen-y-bont ar Ogwr a enillodd raddau A*- E ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Dim ond un myfyriwr na wnaeth ennill gradd 'llwyddo'. Bydd cynifer o fyfyrwyr yn sefyll Safon Uwch Cymraeg 2il Iaith yn 2018 â nifer y ceisiadau yn 2015 a 2016 o leiaf.

Ledled Cymru, gostyngodd nifer y disgyblion a astudiodd Safon Uwch Cymraeg o 272 yn 2015 i 242 yn 2017. Yn yr un modd, gostyngodd nifer y disgyblion a astudiodd Safon UG Cymraeg 2il Iaith o 354 yn 2014 i 298 yn 2017.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dirwyn y cwrs byr TGAU Cymraeg 2il Iaith i ben ac erbyn hyn mae'r holl fyfyrwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn astudio'r cwrs llawn TGAU Cymraeg 2il Iaith. Gan hynny, nid yw'r niferoedd mawr sy'n astudio Cymraeg hyd at TGAU wedi'u hadlewyrchu yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc ar Safon Uwch. Os cafwyd unrhyw newid o gwbl, mae ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn adrodd mai gostwng a wnaeth y niferoedd sy'n dewis Safon UG Cymraeg 2il Iaith ers ei gwneud hi'n orfodol i ddilyn y cwrs llawn TGAU Cymraeg.

### 3. Cynnig y cwricwlwm

Mae Cymraeg 2il Iaith ar Safon Uwch ac UG wedi'u cynnwys ym mlociau opsiwn yr amserlen gydweithredol ar gyfer y cwricwlwm sy'n hygyrch i holl fyfyrwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyflwynir Safon Uwch ac UG Cymraeg 2il Iaith ar hyn o bryd gan Ysgol Gyfun Bryntirion, ond gellir dilyn y cymwysterau hefyd yn Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath ac yng Ngholeg 6ed Dosbarth Pen-y-bont (yn Ysgol Gyfun Pencoed.

Yn ogystal â'r 16 o fyfyrwyr yn Ysgol Gyfun Bryntirion, mae nifer fach o fyfyrwyr yn astudio Cymraeg Safon Uwch/UG yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath ac yn Ysgol Gyfun Pencoed.

Dyma ddolen gyswllt i Safon Uwch Cymraeg Iaith 1af ym mhrosbectws cyffredin ar-lein Pen-y-bont ar Ogwr:

https://www.bridgendpathways.co.uk/cy/course?courseid=155

Dyma ddolen gyswllt i Safon Uwch Cymraeg 2il Iaith ym mhrosbectws cyffredin ar-lein Pen-y-bont ar Ogwr:

https://www.bridgendpathways.co.uk/cy/course?courseid=156

### 4. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCMA)

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCMA) Pen-y-bont ar Ogwr yn ymroi'n llawn i hyrwyddo cynnydd yn natblygiad y Gymraeg o ofal plant drwy'r blynyddoedd cynnar, addysg gynradd ac uwchradd. Mae'r CSCMA yn gwbl gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi craffu'n fanwl ar CSCMA Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ac yn ddigon cadarn i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Consortiwm Canolbarth y De hefyd yn datblygu cynllun cyfrwng Cymraeg rhanbarthol a gefnogir gan Swyddog Addysg Gymraeg. Pwrpas y Cynllun yw cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gwaith yn cael ei gyflawni'n benodol ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac ar waith partneriaethol rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

Drwy fonitro'n ofalus, mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau lefelau cadw cryf mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac ymdrin ag unrhyw faterion a allai atal hynny. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) wedi cynyddu'r ystod o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn benodol yn sgil adborth o'r gwaith monitro. Mae'r

staff addysgu yn treulio cyfnodau sabothol er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg ac yn cael effaith wrth ddychwelyd, gan ychwanegu at yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion.

5. **Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif**

CBSPO ar hyn o bryd yn ystyried ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a chynradd, gan gynnwys darpariaeth gofal plant newydd a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd. Rydym yn ystyried ehangu'r sector ymhellach yn rhan o gynlluniau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

6. **Hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach**

Mae'r Siarter Iaith yn cael ei mabwysiadu gan nifer o ysgolion ar draws y sector cynradd. Nod siarter ydyw sy'n cydnabod amlygrwydd a datblygiad sgiliau Cymraeg, a'r anogaeth ar gyfer hynny, ar draws yr ysgol gyfan - yn hytrach nag agweddau addysgu'r pwnc yn unig.

Mae holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyrraedd trothwy'r Siarter Iaith, ac mae sawl ysgol cyfrwng Saesneg yn dechrau'r broses o gyrraedd y trothwy hwnnw. Bydd yr ymagwedd hon i'w gweld yn gryfach yn y dyfodol yng nghynlluniau clwstwr Tîm Pen-y-bont ar Ogwr.

**Cwestiwn atodol gan y Cyng. T Thomas**

O safbwynt y nifer sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch, beth mae'r awdurdod yn ei wneud i hyrwyddo cynnig gweithredol? Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r ddarpariaeth, amserlennu, cynllunio'r gweithlu gan gynnwys datblygiad/hyfforddiant proffesiynol, ond yr hyn y mae gennyf ddiddordeb arbennig ynddo yn y cyd-destun hwn yw gwaith hyrwyddo cyffredinol ymhlith disgyblion Bl 11 ac o ran cyfleoedd gyrfa.

**Ymateb (gan yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio)**

Fel yr Aelod Cabinet perthnasol, gallaf gadarnhau bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo'n llwyr i ddarpariaeth statudol y Gymraeg. Yr oedd yn falch o ddweud mai Cyngor Sir Morgannwg, dan reolaeth Lafur, a sefydlodd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf, yn Rhydfelin, ac ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr yn Llangynwyd. Ychwanegodd fod ganddo ddiddordeb cryf mewn iaith a diwylliant.

Pan fydd myfyrwyr yn cychwyn eu cymwysterau Safon Uwch, nid yw'r Gymraeg yn orfodol mwyach a bydd y myfyrwyr yn gwneud dewisiadau. Cytunodd â'r Cynghorydd fod pennawd diweddar yn y Glamorgan Gazette yn anghywir ac yn gamarweiniol wrth ddweud na allai myfyrwyr ym Mhorthcawl astudio'r Gymraeg. Mae'r ffaith ein bod yn cyfrannu adnoddau at amserlen Chweched Dosbarth gyffredin ar draws ein holl ysgolion yn golygu bod modd i fyfyrwyr o Borthcawl astudio'r Gymraeg, drwy gyfuno â grwpiau o Gynffig a Bryntirion.

Wrth inni ddatblygu ein strategaeth 16+, bydd y buddsoddiad hwn o fudd i'r Gymraeg yn ogystal â phynciau Safon Uwch eraill a allai fod yn annichonadwy fel arall. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma yw galluogi niferoedd Cymraeg Safon Uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr i wrthsefyll y duedd i ostwng a geir mewn llawer o siroedd eraill yng Nghymru.

Mae'n destun pryder bod y niferoedd sy'n astudio'r holl ieithoedd modern yn tueddu i ostwng ledled Cymru, ac ar draws y DU, ac yr oedd yn cytuno eto â'r Cynghorydd y byddai'n bolisi da gweithio gyda myfyrwyr Blwyddyn 11 i'w hargyhoeddi ynghylch gwerth

astudio ieithoedd a diwylliant yn gyffredinol, gan gynnwys iaith a diwylliant Cymru wrth gwrs. Yn anffodus, ni fu cysyniad Brexit o gymorth yn hyn o beth, gan y byddai Brexit yn arwain at ynysu a diffyg ymwybyddiaeth o werth ieithoedd prif ffrwd a ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg, Catalan ac ieithoedd a diwylliannau rhanbarthau eraill yn Ewrop.

Mae astudio unrhyw iaith yn ei gwneud hi'n haws astudio iaith arall, felly mae creu Cymru ddwyieithog yn nod cadarnhaol iawn; ar ben hynny, mae'n dilyn mai'r ffordd orau o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yw hyrwyddo diddordeb mewn ieithoedd a diwylliant yn gyffredinol ar draws cymdeithas, yn hytrach na dibynnu ar ysgolion yn unig, er mwyn galluogi cymdeithas i symud ymlaen i gystadlu ym marchnadoedd swyddi Cymru, y DU, Ewrop ac ar draws y byd.

Ailbwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd baragraff 6 yr ymateb cyntaf, sef bod cyfathrebu drwy'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ym mhob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol, a bod hyn nid yn unig yn cael ei bwysleisio ymhlith disgyblion a oedd yn cael eu haddysgu yn yr ysgolion, ond hefyd ymhlith eu rhieni a'u gwarcheidwaid.

Cyfeiriodd ymhellach at baragraff 4 yr ymateb cyntaf a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCME) sydd hefyd yn annog siaradwyr Cymraeg.

**Cwestiwn i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar oddi wrth y Cyng. A Hussain**

‘Mae 575,500 o bobl yn byw gyda byddardod yng Nghymru, ac mae'r nifer ar gynnydd wrth i'r boblogaeth heneiddio ac wrth i bobl fyw'n hirach. Nid wyf yn gwybod faint bobl sy'n byw gyda byddardod yma yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn eu hadroddiad diweddar, mae Action on Hearing Loss Cymru wedi argymell, ac rwyf yn dyfynnu, "Dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu darpariaeth a'u trefniadau mynediad i bobl sydd yn fyddar neu wedi colli eu clyw, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dylid rhoi sylw neilltuol i'r canlynol:

- y pwynt cyswllt/mynediad cyntaf,
- y broses asesu,
- y drefn ar gyfer cyflwyno cyfarpar cynorthwyol a
- darparu gwybodaeth/cyngor/arweiniad ym mhob rhan o'r awdurdod lleol."

Gan gadw'r argymhelliad uchod a awgrymwyd gan Action on Hearing Loss Cymru mewn cof, a all yr Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor sut rydym yn cefnogi pobl sydd wedi colli eu clyw yma yn ein Sir?'

**Ymateb**

Mae gan yr adran Gofal Cymdeithasol Oedolion Dîm Synhwyraidd sydd wedi'i leoli yn y Tîm Adnoddau Cymunedol, gyda Gweithwyr Cymdeithasol Arbenigol, Gweithiwr Cymdeithasol Cynorthwyol, Swyddogion Adsefydlu a Chynorthwywyr Synhwyraidd. Mae'r tîm yn gweithio gydag unigolion sy'n byw gyda nam ar y synhwyrau, sy'n cynnwys pobl sydd wedi colli eu golwg, pobl sydd yn ddiwylliannol fyddar (B), sydd wedi troi'n fyddar (b) neu sydd wedi colli eu clyw, yn ogystal â phobl sydd wedi colli eu golwg a'u clyw (pobl fyddar a dall).

Y nod yw sicrhau bod oedolion a phlant â nam ar y synhwyrau yn cael cefnogaeth i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol ag sy'n bosibl.

Yn y drefn y gofynnwyd y cwestiwn:

Y pwynt cyswllt/mynediad cyntaf - Yn achos oedolion, daw'r holl ymholiadau/atgyfeiriadau ynghylch colli synhwyrau drwy'r Pwynt Mynediad Cyffredin. Gellir cysylltu drwy e-bost, llythyr, ffacs neu neges-destun ar ffôn symudol. Rydym hefyd yn profi "Signvideo" sef llwyfan sy'n rhoi mynediad i'r Pwynt Mynediad Cyffredin i bobl fyddar drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gan eu galluogi i deimlo'n hyderus wrth ffonio pobl sy'n clywed drwy ddehonglwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawn. Gellir gwneud galwadau SignVideo drwy ffôn fideo, cyfrifiadur glin, cyfrifiadur desg, ffôn clyfar neu lechen. Gofynnir i bob unigolyn pa ddull cyfathrebu y mae'n ei ffafrio, a chofnodir hynny yn WCCIS. Mae'n bosib mai dim ond gwybodaeth, cyngor neu gefnogaeth briodol fydd ei hangen er mwyn ymdrin ag ymholiad. Os oes angen cynnal asesiad arbenigol, gellir trefnu i gynnal yr asesiad hwnnw yng nghartref yr unigolyn ac/neu yng Nghanolfan Adnoddau Trem y Môr ym Metws.

Y broses asesu - Gall y Tîm gynnal nifer o wahanol asesiadau yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Cynhelir asesiad o angen, gan ddefnyddio'r un offeryn asesu a ddefnyddir ar gyfer unrhyw aelod arall o'r cyhoedd. Gall ein dull o gyfathrebu amrywio, a gall gynnwys dehonglwyr ar gyfer gwahanol fathau o iaith arwyddion, yn ogystal â iaith lafar. Ar adegau, bu angen defnyddio dehonglydd iaith arwyddion a dehonglydd iaith lafar ar yr un pryd i gefnogi asesiad. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr unigolyn yn cael pob cyfle i esbonio ei amgylchiadau a'r hyn sy'n herio ei annibyniaeth.

Os oes angen cynnal asesiad arbenigol, gellir trefnu hynny. Mae ystod o gyfarpar arbenigol ar gael i helpu pobl sydd â nam ar y synhwyrau i barhau i fyw'n annibynnol. Efallai y bydd peth o'r cyfarpar yn cael ei ddarparu yn rhan o'r asesiad arbenigol neu'r hyfforddiant adsefydlu. Yn Nhrem y Môr, ceir Ystafell Adnoddau Synhwyraidd lle mae cyfarpar yn cael ei arddangos ac ar gael i'w brofi. Mae'r ystafell hefyd yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ynghylch lle i brynu eitemau arbenigol.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos â'r Clinig Awdioleg yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac yn derbyn atgyfeiriadau i bobl sydd angen cymorth i barhau i fyw'n annibynnol. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol Arbenigol ar gyfer Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw yn cynnal sesiynau rheolaidd yn Nhrem y Môr i'r bobl hynny a gaiff eu hatgyfeirio, er mwyn canfod cyfarpar/hyfforddiant sgiliau fydd yn helpu'r unigolyn i barhau i fyw'n annibynnol.

Darparu gwybodaeth a chyngor (ym mhob rhan o'r awdurdod) - Mae'n ddyletswydd arnom i gadw cofrestrau o bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chanddynt nam ar y synhwyrau.  Penderfyniad gwirfoddol yw cael eich cynnwys ar y cofrestrau hyn, ond maent yn ein helpu i ddatblygu a chynllunio gwasanaethau.  Gallwn ddarparu gwybodaeth am gofrestru fel unigolyn â nam difrifol ar y golwg (dall), â nam ar y golwg (rhannol ddall), Byddar neu drwm ei glyw, neu unigolyn byddar a dall. Byddwn hefyd yn esbonio unrhyw hawliadau yn gysylltiedig â chofrestru.

Gall y Tîm ddarparu catalogau o gyfarpar a rhoi cyngor ynghylch yr eitemau y gellir eu prynu er mwyn helpu'r unigolyn i fyw'n annibynnol. Mae'r tîm yn cadw rhestrau o grwpiau cymorth yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr y gall pobl ymuno â hwy i gymdeithasu/i gael cefnogaeth/am wybodaeth a chyngor. Bydd Action on Hearing Loss yn cynnal cyfarfod misol ym Mhencoed. Cefnogir hyn gan y tîm drwy drefnu bod aelod yn bresennol i fod wrth law i dderbyn atgyfeiriadau a darparu gwybodaeth a chyngor.

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Sense Cymru sy'n darparu gwasanaeth allgymorth i helpu pobl sydd yn fyddar/rhannol fyddar, neu sydd wedi colli eu clyw, ac a allai fod anghenion ychwanegol, fel anghenion yn gysylltiedig â iechyd meddwl, anabledd corfforol neu anawsterau dysgu.  Mae'r Gwasanaeth yn cynorthwyo unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol drwy hyrwyddo annibyniaeth, ymgysylltiad a

chyfranogiad yn y gymuned leol, gan hyrwyddo neu gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartref eu hunain. Cefnogir hyn gan y canlynol: dulliau cyfathrebu sydd yn gweddu i'r unigolyn, anogaeth i ryngweithio'n gymdeithasol mewn modd priodol, cynyddu hyder a gwybodaeth, cynorthwyo unigolion i feithrin sgiliau a thechnegau er mwyn ymdopi â bywyd o ddydd i ddydd, gwella cyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn gweithgarwch fel addysg, gwaith, hyfforddiant, iechyd a hamdden, ac i ddarparu gwybodaeth berthnasol mewn fformatau priodol, a chyfeirio. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn ymweld â'r Grŵp Pobl Fyddar ddwywaith y mis lle gall gyfeirio unigolion i wasanaethau eraill ac/neu ddarparu cyngor a gwybodaeth. Hyd y gwyddom, mae'r gwasanaeth hwn yn unigryw ac ni cheir ei fath yn unrhyw ran arall o Gymru.

Darperir gwasanaeth Tywysydd Cyfathrebu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth arall. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cefnogaeth i bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi colli'r ddau synnwyr, i'w galluogi i gyfranogi ac ymgysylltu yn ei cymunedau, a hyrwyddo neu gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartref.

Bydd Tywyswyr Cyfathrebu yn sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth well i fyw bywyd llawn a sicrhau llesiant drwy hwyluso cefnogaeth cyfathrebu a mynediad i'r gymuned, gan ddarparu technegau hebrwng a thywys a darparu gwybodaeth hygyrch a pherthnasol mewn fformatau priodol.

Wrth gyfathrebu â Chyfarwyddwr Action on Hearing Loss, cyfeirir yn gadarnhaol at Ben-y-bont ar Ogwr am ei barodrwydd i ymateb i bobl sydd yn fyddar/rhannol fyddar neu sydd wedi colli eu clyw.

**Cwestiwn atodol gan y Cyng A Hussain**

Diolch am eich ateb manwl, ac mae'n bleser gennyf nodi bod peth o'r ddarpariaeth gwasanaeth fwyaf arbenigol yng Nghymru i'w chael ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r defnydd o fideo arwyddion yn y Pwynt Mynediad Cyffredin yn rhagorol, yn ogystal â mynediad cychwynnol drwy negeseuon e-bost a negeseuon testun.

A allai'r Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor pa mor hir yw'r rhestr aros ar gyfer asesiad arbenigol (hy, faint o ddiwrnodiau/wythnosau/misoedd y gallai rhywun fod yn aros) a beth yw'r broses asesu.

**Ymateb**

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r cwestiwn ac yn ymateb i'r holl Aelodau gyda hyn y tu allan i'r cyfarfod.

232. RHYBUDD O GYNNIG A WNAED GAN Y CYNGHORYDD TIM THOMAS

Yn dilyn araith gyflwyniadol, cyflwynodd yr Aelod uchod Hysbysiad o Gynnig:-

Bod y Cyngor yn cydnabod:

Effaith niweidiol y cynnydd mewn nwyon yn yr atmosffer ar yr amgylchedd a'r modd y mae'n cyfrannu at newid andwyol yn yr hinsawdd. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cydweithredu ar raddfa ryngwladol er mwyn atal yr effaith uniongyrchol ar ein hinsawdd.

“Mae'r Cyngor yn croesawu:

Ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd drwy fentrau i gyfyngu ar gynhesu byd-eang, a'r ffaith eu bod yn derbyn bod defnyddio tanwydd ffosil yn ffactor o bwys sydd yn cyfrannu at gynnydd parhaus yn nhymheredd y byd ac allyriadau carbon deuocsid.

Yn ystod 2016/17, mae'r Cyngor yn nodi bod Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, sydd yn gweinyddu trefniadau pensiwn ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, wedi buddsoddi canran o gronfeydd cyfunol anuniongyrchol mewn tanwydd ffosil.

Mae'r cyngor yn galw ar Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf i ddechrau tynnu'n ôl yn drefnus o'r buddsoddiadau hynny ar y cyfle cyntaf."

Bu'r Aelodau'n trafod yr eitem hon, a chan fod gwahaniaeth barn ar y llawr ynghylch a ddylai'r Cyngor gefnogi'r Cynnig ai peidio, cynhaliwyd pleidlais electronig ynghylch a ddylid cofnodi pleidlais ar y cynnig. Dyma ganlyniad y bleidlais honno:

| O blaid | Yn erbyn | Atal pleidlais | Heb bleidleisio |
|---|---|---|---|
| 19 | 15 | 0 | 15 |

Yn dilyn hynny, cynhaliwyd pleidlais ynghylch yr Hysbysiad o Gynnig uchod. Dyma fu canlyniad y bleidlais honno:

**Members names to be put in after they have been translated and before the minutes go out with the agenda for the next meeting**

| O blaid | Yn erbyn | Atal pleidlais |
|---|---|---|
| 10 | 24 | 0 |

Nodwyd bod gweddill yr Aelodau a oedd yn bresennol naill ai heb bleidleisio neu wedi gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, ar ôl datgan buddiant yn gynharach yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Nodi na dderbyniwyd/chefnogwyd yr Hysbysiad o Gynnig uchod drwy benderfyniad gan y mwyafrif.

| **Notice of Motion (Motion)** | |
|---|---|
| Cynghorydd Sean Aspey | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Stuart Baldwin | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Tom Beedle | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Against |
| Cynghorydd Nicole Burnett | Against |
| Cyngorydd Mike Clarke | For |
| Cynghorydd Norah Clarke | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Richard Collins | Against |
| Cynghorydd Huw David | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Paul Davies | Against |
| Cynghorydd Pam Davies | Against |
| Cynghorydd Keith Edwards | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Against |
| Cynghorydd Tom Giffard | Against |
| Cynghorydd Richard Granville | Against |
| Cynghorydd Cheryl Green | For |
| Cynghorydd Gareth Howells | Conflict Of Interests |
| Cyngorydd Altaf Hussain | Against |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Malcolm James | For |
| Cynghorydd Martyn Jones | Against |
| Cynghorydd Mike Kearn | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd David Lewis | Against |
| Cynghorydd Janice Lewis | Against |
| Cynghorydd John McCarthy | No vote recorded |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | Against |
| Cynghorydd Ross Penhale-Thomas | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Aniel Pucella | Against |
| Cynghorydd Kay Rowlands | Against |
| Cynghorydd Bridie Sedgebeer | Against |
| Cynghorydd Rod Shaw | Against |
| Cynghorydd Charles Smith | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Stephen Smith | Against |
| Cynghorydd Roz Stirman | For |
| Cynghorydd Gary Thomas | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Tim Thomas | For |
| Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE | For |
| Cynghorydd Elaine Venables | For |
| Cynghorydd Sadie Vidal | For |
| Cynghorydd Matthew Voisey | Against |
| Cynghorydd Lyn Walters | Against |
| Cynghorydd Ken Watts | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Carolyn Webster | Against |
| Cynghorydd David White | Conflict Of Interests |
| Cynghorydd Philip White | Against |
| Cynghorydd Alex Williams | Conflict Of Interests |
| Councillor Amanda Williams | For |
| Cynghorydd Hywel Williams | Against |
| Cynghorydd Julia Williams | For |
| Cynghorydd Richard Young | Against |
| **Rejected** | |

233. MATERION BRYS

Dim

234. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem a ganlyn, o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, gan fod yr eitem honno'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 ac ym Mharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Ar ôl cymhwyso’r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod, yn unol â’r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, er mwyn trafod yr eitem a ganlyn yn breifat, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir uchod.

## 235. PECYN YMDDEOLIAD CYNNAR A DISWYDDO GWIRFODDOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad eithrio a ofynnai i'r Cyngor gymeradwyo'r pecyn diswyddo (y manylir arno yn yr Atodiad i'r adroddiad), yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Atebolrwydd tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, ac a gaiff ei adlewyrchu ym Mholisi Tâl y Cyngor (a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol) ar gyfer 2018-19 ar ôl dileu swydd Rheolwr Grŵp.

Fel gwybodaeth gefndir, esboniodd fod y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 40 o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011, yn argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo pecynnau diswyddo dros £100k. Nod y canllawiau yw hyrwyddo gonestrwydd a thryloywder yn gysylltiedig â phecynnau diswyddo sydd yn uwch na'r swm hwn.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod y cyfrifiadau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys taliadau na chyflwynir i'r cyflogai, a bod diffiniad y canllawiau o'r elfennau sy'n creu'r pecyn diswyddo £100k ac uwch yn cynnwys y canlynol:

i. Cyflog a delir yn lle rhybudd;
ii. Cyfandaliad diswyddo, a
iii. Y gost i'r awdurdod yn sgil unrhyw ychwanegiad at bensiwn neu straen ar y gronfa bensiwn.

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ei flaen i ddweud bod ymarfer wedi'i gynnal i ad-drefnu rheolwyr trydedd haen, a gynigiai y dylid gwahanu gwasanaethau yn ôl cyfrifoldebau gweithredol a strategol o fewn ei Gyfarwyddiaeth. Byddai'r Pennaeth Gwasanaeth newydd unigol yn arwain adain weithredol y Gyfarwyddiaeth, a byddai'r elfen strategol yn adrodd wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Byddai'r swydd newydd yn cael ei neilltuo ar gyfer y ddau Reolwr Grŵp yr oedd eu swyddi'n cael eu dileu, ac effaith hynny fyddai diswyddo un ohonynt yn orfodol. Mae'r cyflogai yn un o'r ddwy swydd hyn, hy y Rheolwr Grŵp - Gwaith Stryd wedi cadarnhau nad yw'n dymuno cael ei ystyried ar gyfer y swydd newydd.

Bydd rhyddhau'r cyflogai hwn yn cyfrannu at y targed o £500k o arbedion mewn costau uwch reoli dros y 2-3 blynedd nesaf.

Esboniai paragraff 4.7 yr adroddiad sut y caiff y cyfandaliad diswyddo ei gyfrifo o dan gynllun Polisi Cyflogau'r Cyngor, tra nodai paragraff 4.8 nad oedd y "straen" ar y gronfa bensiwn yn cael ei dalu i'r cyflogai, ac mai taliad cyfalaf oedd hwnnw gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn gyffredinol ei hun er mwyn talu'r gost o alluogi'r cyflogai i gael mynediad cynnar i'w bensiwn. Mae swm y taliad yn seiliedig ar ddarpariaeth yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, sydd yn rhagnodi y bydd gan unrhyw gyflogai 55 oed a throsodd sydd yn gadael ei swydd oherwydd diswyddo, yr hawl i gael mynediad yn syth at y LGPS heb leihau'r pensiwn ar sail tybiaethau actwaraidd yn sgil talu'r pensiwn yn gynnar.

Gorffennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ei gyflwyniad drwy ddweud beth fyddai goblygiadau ariannol yr adroddiad, fel yr amlygir ym mharagraff 8.1.

Cyfeiriodd Aelod at Nodyn 3 yn Atodiad 1, a'r Iawndal y byddai'r cyflogai'n ei dderbyn, a'r ffaith mai dyma oedd 'elfen ddewisol y cyfandaliad diswyddo'. Hyd y bo polisi tâl neilltuol mewn grym, cynghorir na fyddai rhyw lawer o obaith i osgoi anrhydeddu'r tâl dewisol hwn i gyflogai sy'n wynebu cael ei ddiswyddo.' Teimlai y dylid adolygu'r rhan hon o'r Polisi Tâl yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Dywedodd yr Arweinydd y gallai'r Awdurdod ystyried hyn, ond y byddai angen ymgynghori â'r Undebau Llafur amrywiol i ddechrau. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod eu safbwynt yn glir ynghylch diogelu telerau ac amodau cyfredol cyflogeion y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn derbyn y pecyn diswyddo (fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Tâl y Cyngor a gymeradwywyd ar gyfer 2018-19.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:48